Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
National Assembly for Wales
**Finance Committee**



Dawn Bowden AC

Cadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

22 Ebrill 2020

Annwyl Dawn,

**Deddfwriaeth Pwyllgor**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Mawrth 2020, pan wnaethoch ofyn i mi am sylwadau ynghylch profiadau'r Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â datblygu Bil Pwyllgor a'i lywio drwy'r broses ddeddfwriaethol.

Fel y gwnaethoch sôn yn eich llythyr, y Pwyllgor Cyllid yw'r unig Bwyllgor hyd yma sydd wedi defnyddio'r ddarpariaeth yn y Rheolau Sefydlog (Rheol 26.81) sy'n galluogi unrhyw un o bwyllgorau'r Cynulliad i gyflwyno Bil sy'n ymwneud â'i gylch gwaith. Defnyddiodd y Pwyllgor y ddarpariaeth honno i gyflwyno **Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)** (y Bil).

Daeth y broses o gyflwyno'r Bil hwn yn sgil trafodaethau helaeth ynghylch yr angen am ddeddfwriaeth–trafodaethau a gynhaliwyd dros ddau Gynulliad. Yn 2015, cynhaliodd Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad ymchwiliad cychwynnol i drafod pwerau'r Ombwdsmon. Yna, cynhaliwyd ymgynghoriad ar Fil drafft, cyn i'r Bil terfynol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig gael eu gosod yn ystod y Pumed Cynulliad, ym mis Hydref 2017. Aeth y Bil ar ei daith drwy'r pedwar cyfnod ym mhroses graffu'r Cynulliad, a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 15 Mai 2019.

Mae'r Bil hwn yn ffrwyth llawer o waith caled a wnaed dros nifer o flynyddoedd a phroses graffu drwyadl, gan gynnwys gwaith gan sawl un o bwyllgorau'r Cynulliad. Roedd yn fraint cael bod yn Gadeirydd y Pwyllgor a oedd yn llywio'r ddeddfwriaeth bwysig hon drwy'r Cynulliad. Er bod ystod eang o adnoddau clercio, cyfreithiol ac ymchwil wedi'u defnyddio yn ystod hynt y Bil, roedd hwn hefyd yn gyfle gwych i feithrin profiad drafftio ac adeiladu capasiti o fewn Comisiwn y Cynulliad.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
0300 200 6565

Yn fwy diweddar, mae'r Pwyllgor wedi bod yn datblygu'r Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n cynnig diwygiadau i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Yn ogystal, o ran y broses o ystyried deddfwriaeth anllywodraethol, hoffwn dynnu eich sylw at y **Bil Awtistiaeth (Cymru)**. Cyflwynwyd y Bil hwn gan Paul Davies AC ym mis Gorffennaf 2018, a bu goblygiadau ariannol y Bil yn destun gwaith craffu gan y Pwyllgor Cyllid. Nododd adroddiad y Pwyllgor nad oedd modd i'r Aelodau wneud penderfyniad ynghylch a oedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddio yn ddilys ai peidio, a hynny yn sgil diffyg gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru. Yn sgil y datblygiad hwn, ysgrifennais at **Brif Weinidog Cymru** yn nodi pryderon y Pwyllgor ynghylch diffyg ymgysylltu Llywodraeth Cymru â Biliau anllywodraethol. Cafwyd **ymateb gan y Prif Weinidog**.

Rwyf wedi darparu ymateb mwy manwl i'ch cwestiynau arfaethedig yn yr Atodiad sydd ynghlwm, ac rwy'n gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn ddefnyddiol i chi yn y broses o ystyried y gwahanol fecanweithiau ar gyfer cyflwyno Biliau.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

**Atodiad –** Profiadau'r Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â datblygu Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

▪ Datblygu cynigion a darpariaethau deddfwriaethol, ynghyd â dogfennaeth ategol, asesiadau effaith ac amcangyfrifon ariannol cysylltiedig.

Cefndir y ddeddfwriaeth

Cafodd rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) ei sefydlu gan **Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005** (Deddf 2005). Ers 2013, cafwyd galwadau am ymestyn pwerau rôl yr Ombwdsmon mewn pum prif faes gan yr Ombwdsmon blaenorol, Peter Tyndall, a'r Ombwdsmon cyfredol, Nick Bennett. Yn y Pedwerydd Cynulliad, bu'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol a'r Pwyllgor Cyllid yn craffu ar waith yr Ombwdsmon ac ystyriaethau ariannol swyddfa'r Ombwdsmon. Fel rhan o waith craffu'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar adroddiad blynyddol yr Ombwdsmon, clywodd y Pwyllgor gan Peter Tyndall, yr Ombwdsmon ar oedd ar fin ymadael, fod angen diweddaru Deddf 2005.

Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n fwy priodol i'r Cynulliad arwain ar unrhyw newid deddfwriaethol gan fod y Llywodraeth yn gorff cyhoeddus sy'n destun gwaith craffu gan yr Ombwdsmon.

Yn dilyn hynny, ysgrifennodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid i ddweud bod gwerth mewn adolygu'r Ddeddf, ond nid oedd modd iddo neilltuo'r amser yr oedd ei angen i wneud hynny. Felly, awgrymodd y gallai'r Pwyllgor Cyllid wneud y gwaith hwn pe dymunai.

Dechreuodd y Pwyllgor Cyllid ei waith ar y Bil yn 2015. Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus at ddibenion llywio ei **ymchwiliad i'r cynigion i ymestyn pwerau'r Ombwdsmon**. Cafodd y Pwyllgor ei argyhoeddi gan y dystiolaeth a glywodd, a chytunodd fod angen newidiadau i'r ddeddfwriaeth. Yn gynnar ym mis Hydref 2015, cynhaliwyd ymgynghoriad ar y **Bil drafft**. O ystyried yr amser cyfyngedig a oedd ar gael yn y Pedwerydd Cynulliad i Fil gwblhau ei thaith ddeddfwriaethol, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Pwyllgor yn y dyfodol gyflwyno'r Bil, a hynny cyn gynted â phosibl. Argymhellodd y Pwyllgor Cyllid hefyd y dylai'r Ombwdsmon gyfrannu at Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gostio'n llawn i gyd-fynd â'r Bil, y byddai modd olrhain ei hynt drwy'r cyllidebau a fyddai'n cael eu cyflwyno gan yr Ombwdsmon i'r Cynulliad yn y dyfodol.

Ystyriaeth gan Bwyllgor Cyllid y Pumed Cynulliad

Ym mis Medi 2016, bu'r Pwyllgor Cyllid yn ystyried yr argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad. Yn dilyn hynny, ysgrifennodd y Pwyllgor at yr Ombwdsmon, gan nodi y byddai angen iddo weld gwybodaeth ariannol gadarn i gefnogi'r ymyrraeth ddeddfwriaethol arfaethedig hon cyn y gallai'r Aelodau ystyried a ddylid cyflwyno'r Bil.

Comisiynodd yr Ombwdsmon gwmni ymchwil allanol, sef OB3, i gynnal yr asesiad angenrheidiol. Ym mis Rhagfyr 2016, cyflwynodd yr Ombwdsmon wybodaeth am gostau a buddion y Bil i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Rhoddodd yr Ombwdsmon dystiolaeth ynghylch goblygiadau ariannol y Bil i'r Pwyllgor Cyllid yn ei gyfarfod ar **9 Mawrth 2017**. Yn dilyn y cyfarfod, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid at yr Ombwdsmon i ofyn am wybodaeth bellach. Yn benodol, roedd y Pwyllgor Cyllid am weld amcangyfrif o'r costau tebygol i'r cyrff cyhoeddus eraill y byddai'r darpariaethau yn y Bil yn effeithio arnynt (neu'r costau 'anuniongyrchol'), sef y costau nad oeddent wedi'u meintioli gan yr Ombwdsmon. Roedd y Pwyllgor Cyllid yn cydnabod yr heriau a'r cyfyngiadau a oedd ynghlwm wrth geisio meintioli'r costau hyn, yn sgil y diffyg tystiolaeth a data a oedd ar gael. Fodd bynnag, roedd o'r farn ei bod yn hanfodol sicrhau bod unrhyw Fil a oedd yn cael ei gyflwyno yn cynnwys costau manwl a oedd wedi'u mesur. Ymatebodd yr Ombwdsmon i gais y Pwyllgor ar **28 Ebrill 2017**.

Paratôdd swyddogion y Cynulliad ddrafft cynnar o'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan ymgorffori'r costau a'r buddion a ddarparwyd gan yr Ombwdsmon, wrth i'r Pwyllgor Cyllid barhau â'r broses o drafod y Bil. Wrth baratoi drafft cynnar o'r Memorandwm Esboniadol, gwnaeth swyddogion y Cynulliad rai rhagdybiaethau ynghylch yr amcangyfrifon cost, gan nodi'r angen am eglurhad neu wybodaeth ychwanegol. Ysgrifennodd y Pwyllgor at yr Ombwdsmon i ofyn am y wybodaeth hon, gan ofyn hefyd am wybodaeth i lywio ei drafodaethau ar agweddau eraill ar y Bil. Yn ogystal ag ymateb i geisiadau'r Pwyllgor yn ysgrifenedig, cynhaliodd staff yr Ombwdsmon gyfarfodydd â swyddogion y Cynulliad i drafod goblygiadau ariannol y Bil a'r Memorandwm Esboniadol drafft.

Parhaodd y Pwyllgor â'i drafodaethau ar y Bil a'r Memorandwm Esboniadol drafft yn ystod tymor y gwanwyn 2017. Ym mis Gorffennaf 2017, cytunodd y Pwyllgor y dylid cyflwyno Bil a oedd yn cynnwys nifer o newidiadau i'r hyn a ddrafftiwyd gan Bwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad.

**▪ Ymgynghori a gweithio â rhanddeiliaid polisi a rhanddeiliaid gwleidyddol, gan gynnwys ar Filiau drafft.**

Fel y nodir uchod, cynhaliwyd dau ymgynghoriad er mwyn rhoi cyfle i randdeiliaid polisi a rhanddeiliaid gwleidyddol lywio'r ddeddfwriaeth cyn i'r Bil gael ei gyflwyno.

Ymatebodd Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad ar y **Bil drafft,** ond nid i'r **ymchwiliad cychwynnol**.

Ar ôl cyflwyno'r Bil, cynhaliodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau (ELGC)–sef y Pwyllgor cyfrifol (mater yr ymdrinnir ag ef yn fwy manwl mewn pwynt bwled isod)–waith craffu llawn ar y Bil yng Nghyfnod 1. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghoriad pellach ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

**▪ Cyflwyno deddfwriaeth a'i llywio drwy'r broses graffu ddeddfwriaethol.**

Awdurdododd y Pwyllgor Cyllid Gadeirydd y Pwyllgor fel yr Aelod a oedd yn gyfrifol am y Bil (Rheol Sefydlog 24.7). Gosododd y Cadeirydd y Bil a'r Memorandwm Esboniadol ar 2 Hydref 2017, a

gwnaeth ddatganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Hydref 2017, gan efelychu'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru (er nad yw hynny'n ofynnol o dan y Rheolau Sefydlog).

Bryd hynny, roedd y Rheolau Sefydlog yn caniatáu i Fil Pwyllgor osgoi'r broses o gael ei gyfeirio'n awtomatig i Bwyllgor cyfrifol, er mwyn i'r Pwyllgor hwnnw gael ystyried ac adrodd ar yr egwyddorion cyffredinol. Fodd bynnag, er mwyn hyrwyddo arfer gorau a thryloywder, ac yn sgil y ffaith bod y gwaith o ddrafftio'r Bil wedi digwydd dros ddau Gynulliad gwahanol, cynigiodd yr Aelod a oedd yn gyfrifol y dylai Aelodau gael cyfle i ystyried ac adrodd ar yr egwyddorion cyffredinol. O ganlyniad, cafodd Rheol Sefydlog 26.82 ei dileu[1]. Cafodd y Bil ei gyfeirio at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, a bu'n destun gwaith craffu llawn yng Nghyfnod 1. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil a'i oblygiadau ariannol. O gofio bod yr olaf o'r rhain fel arfer yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Cyllid, penododd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau gynghorwr arbenigol i helpu gyda'i waith craffu ar oblygiadau ariannol y Bil.

Yn ogystal â darparu tystiolaeth lafar yn ystod Cyfnod 1, fel sy'n arferol, cafodd yr Aelod a oedd yn gyfrifol ohebiaeth gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ym mis Rhagfyr 2017 a mis Ionawr 2018 yn gofyn iddo ymateb i gwestiynau a materion a godwyd gan y Cynghorwr Arbenigol.

Yn ystod Cyfnod 1, bu'r Bil hefyd yn destun gwaith craffu gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a fu'n ystyried y darpariaethau ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn y Bil. Clywodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol dystiolaeth gan yr Aelod a oedd yn gyfrifol a chan Ysgrifennydd Cyllid y Cabinet. Yna, cyflwynodd y Pwyllgor adroddiad ar y Bil (fel sy'n arferol ar gyfer pob Bil).

Mae'r cam o ddileu gallu Bil Pwyllgor i osgoi cael ei gyfeirio'n awtomatig at Bwyllgor cyfrifol yn golygu mai'r Pwyllgor Busnes sydd bellach yn penderfynu a ddylid cyfeirio Bil Pwyllgor at Bwyllgor cyfrifol at ddibenion gwaith craffu yng Nghyfnod 1 (fel sy'n digwydd gyda Biliau'r Llywodraeth a Biliau anllywodraethol eraill). Fodd bynnag, pan wnaed yr awgrym i newid y Rheolau Sefydlog er mwyn caniatáu'r broses o gyfeirio Bil Pwyllgor ar gyfer gwaith craffu yng Nghyfnod 1, credaf mai'r bwriad oedd cadw'r darpariaethau a fyddai'n caniatáu i Fil Pwyllgor osgoi Cyfnod 1.

Mae'r broses o baratoi Bil drafft yn golygu defnyddio cryn dipyn o amser y Cynulliad a rhanddeiliaid. Os yw'r Llywodraeth yn rhan o'r gwaith a wneir ar Fil cyn iddo gael ei gyflwyno, gallai'r broses o gyfeirio Bil yn awtomatig at Bwyllgor ar gyfer gwaith craffu yng Nghyfnod 1 fod yn ddefnydd aneffeithlon o amser Pwyllgor.

Amserlen y Bil

Ceisiodd y Pwyllgor Cyllid amseru'r broses o gyflwyno'r Bil i gyd-fynd â chyfnod cyfleus o ran llwyth gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau. Dilynodd arfer gorau drwy

[1] Drwy benderfyniad y Cynulliad ar 27 Medi 2017

hwyluso proses hirach yng Nghyfnod 1, a hynny er mwyn caniatáu i’r Pwyllgor a oedd yn craffu ar y Bil gynnal ymgynghoriad llawn, a chaniatáu iddo wneud gwaith Pwyllgor arall ar yr un pryd.

Wrth ystyried yr amserlen ar gyfer y Bil, cafodd yr Aelod a oedd yn gyfrifol drafodaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd, a hynny er mwyn lleihau’r pwysau ar Lywodraeth Cymru. Er bod y Cynulliad wedi cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil o fewn yr amserlen y cytunwyd arni gan y Pwyllgor Busnes, ceisiodd yr Aelod a oedd yn gyfrifol gael estyniad i’r dyddiad cau ar gyfer Cyfnod 2, a hynny er mwyn sicrhau bod y Cynulliad yn cymeradwyo’r penderfyniad ariannol. Nod y dyddiad cau a gynigiwyd gan yr Aelod a oedd yn gyfrifol oedd osgoi unrhyw wrthdaro â llwyth gwaith sylweddol y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Cyllid yn nhymor yr hydref.

**▪ Creu a chynnal consensws ymhlith aelodau'r Pwyllgor ar faterion fel amcanion polisi, cynigion deddfwriaethol a strategaethau diwygio.**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Aelod a oedd yn gyfrifol yn cyfathrebu â Llywodraeth Cymru ac yn cyflawni'r holl swyddogaethau perthnasol fel yr Aelod a oedd yn gyfrifol am y Bil. Rhoddodd yr Aelod a oedd yn gyfrifol wybodaeth reolaidd i'r Pwyllgor am y cynnydd a oedd yn cael ei wneud, a hynny drwy ddarparu diweddariadau ysgrifenedig a oedd yn destun trafodaethau preifat, yn unol â Rheol Sefydlog 17.42. Cyn y cyfnodau diwygio, trafododd y Pwyllgor y gwelliannau arfaethedig a fyddai'n cael eu cyflwyno gan yr Aelod a oedd yn gyfrifol, a chytunodd arnynt.

**▪ Creu a chynnal consensws o blaid eich cynigion ymhlith y pleidiau gwleidyddol ac ymhlith rhanddeiliaid.**

Fel y nodir uchod, bu’r cynigion yn y Bil yn destun ymgynghori cyhoeddus helaeth a chraffu manwl gan y Pwyllgor cyn i’r Bil gael ei gyflwyno–proses a roddodd gyfle i bleidiau gwleidyddol a rhanddeiliaid fynegi barn ar y Bil a dylanwadu ar y broses o’i ddatblygu.

**▪ Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru**

Fel y soniwyd yn flaenorol, ymatebodd Llywodraeth Cymru i’r ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y **Bil drafft** gan Bwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad. Roedd cyfranogiad Llywodraeth Cymru yn gymharol gyfyngedig hyd nes bod trafodion Cyfnod 1 ar y Bil wedi’u cwblhau. Mae'r Bil yn ymwneud â meysydd pwnc amrywiol, gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol a llywodraeth leol. Felly, cynhaliodd yr Aelod a oedd yn gyfrifol gyfarfodydd gyda'r Gweinidogion perthnasol yn gynnar yn y broses er mwyn symud y ddeddfwriaeth yn ei blaen.

Wrth i’r Cynulliad ystyried yr egwyddorion cyffredinol, nododd y Gweinidog, yn ogystal ag ailedrych ar y costau a oedd wedi’u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, y byddai angen mynd i'r afael â nifer o faterion polisi a materion drafftio cyn y gallai Llywodraeth Cymru gefnogi'r Bil.

Yn sgil y ffaith mai dim ond Gweinidog all gynnig Penderfyniad Ariannol, roedd ennill cefnogaeth Llywodraeth Cymru yn hanfodol i sicrhau bod y Bil yn pasio Cyfnod 1. Roedd y broses o sicrhau y byddai’r Gweinidog yn cytuno cynnig y Penderfyniad Ariannol yn cynnwys diwygio'r Asesiad Effaith

Rheoleiddiol cyn y ddadl dan sylw (cam nad yw fel arfer yn cael ei gymryd hyd nes bod trafodion Cyfnod 2 wedi'u cwblhau). Gan fod Rheol Sefydlog 26.74(i) yn ei gwneud yn ofynnol bod hysbysiad ynglŷn â chynnig ar gyfer penderfyniad ariannol yn cael ei gyflwyno o fewn chwe mis ar ôl cwblhau Cyfnod 1 (21 Mawrth 2018), roedd y Pwyllgor yn wynebu'r her o adolygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a sicrhau bod Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad yn cymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol cyn toriad yr haf 2018.

Gwnaeth yr Aelod a oedd yn gyfrifol ymrwymiad i weithio gyda'r Gweinidog er mwyn symud y Bil yn ei flaen mewn modd a oedd yn foddhaol i'r Pwyllgor Cyllid ac i Lywodraeth Cymru. Roedd y broses hon yn cynnwys cryn dipyn o ymgysylltu rhwng swyddogion y Cynulliad a swyddogion Llywodraeth Cymru yn dilyn Cyfnod 1. Yn ogystal â helpu'r broses o ateb cwestiynau ynghylch goblygiadau ariannol y Bil a sylwadau Llywodraeth Cymru amdano, gwnaeth hyn sicrhau bod y dull gweithredu yn un cydgysylltiedig, a bod dyddiadau targed yn cael eu cwrdd, a cherrig milltir yn cael eu cyrraedd.

Cyflwynwyd cyfanswm o 230 o welliannau yng Nghyfnod 2, a 49 o welliannau yng Nghyfnod 3. Er mwyn osgoi llwyth gwaith mor drwm i bawb sy'n ymwneud â'r broses, byddai'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i ymgysylltu'n gynt yn y broses o ddatblygu Biliau Pwyllgor drafft.

▪ **Cael mynediad at sgiliau ac adnoddau perthnasol**

Gweithio gyda Swyddfa'r Ombwdsmon

Sefydlodd swyddogion y Cynulliad berthynas waith ragorol â swyddogion yr Ombwdsmon. Gwnaeth hyn hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth ac ateb cwestiynau mewn modd amserol, a oedd yn bwysig o gofio'r pwysau amser a oedd yn bodoli ar adegau gwahanol o'r broses ddeddfwriaethol. Cynhaliodd y swyddogion gyfarfodydd rheolaidd i drafod y cynnydd a oedd yn cael ei wneud ac i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i swyddfa'r Ombwdsmon.

Wedi'i hatodi isod, ceir amserlen o hynt y Bil.

# Amserlen ar gyfer
# Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

**11 Mai 2015** | Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad yn llunio adroddiad ar Ystyried Pwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

**18 Mawrth 2016** | Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad yn llunio adroddiad ar Trafod yr ymgynghoriad ar y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft

**2 Hydref 2017** | Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) yn cael ei gyflwyno gan Bwyllgor Cyllid y Pumed Cynulliad

**9 Mawrth 2018** | Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn llunio adroddiad ar Gyfnod 1: egwyddorion cyffredinol Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

**9 Mawrth 2018** | Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaetholyn llunio adroddiad ar bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth o fewn y Bil

**21 Mawrth 2018** | **Dadl Cyfnod 1**
Yn y Cyfarfod Llawn - Cynnig yn cael ei gytuno

**22 Mawrth 2018** | **Dechrau Cyfnod 2**
Aelodau'r Cynulliad yn cyflwyno gwelliannau i'r Bil

**17 Gorffennaf 2018** | Cytuno ar y Penderfyniad Ariannol yn y Cyfarfod Llawn

**31 Ionawr 2019** | **Cyfnod 2**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ystyried y gwelliannau

**1 Chwefror 2019** | **Dechrau Cyfnod 3**
Aelodau'r Cynulliad yn cyflwyno rhagor o welliannau i'r Bil

**13 Mawrth 2019** | **Cyfnod 3**
Gwelliannau'n cael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn

**20 Mawrth 2019** | **Cyfnod 4**
Cynnig i gymeradwyo'r Bil yn cael ei gytuno